Creu modelau 3D o ffotograffau

# HeritageTogether.org

Creating 3D models from photographs

## Henebion syml

Ceisiwch gynnwys pob wyneb yr heneb (yr ochrau, unrhyw adrannau cudd, manylion gyda gwead diddorol, yn ogystal ag wynebau ar ben yr heneb).
Ar gyfer henebion tal (h.y. yn dalach na'r ffotograffydd), bydd rhaid defnyddio rhyw ddull amgen i gofnodi o uwchben yr heneb.
Defnyddiwch luniau ar osgo a thrawsluniau o luniau perpendicwlar gyda nodweddion tal iawn.
I osgoi afluniad fertigol ar henebion tal, tynnwch luniau o gornelau'r heneb sydd yn cofnodi'r wynebau fertigol o onglau arosgo.





## Henebion cymleth gyda sawl elfen

Mewn safleoedd gyda sawl elfen, mae lluniau 'lleoli' a 'cyd-destunol' yn helpu'r rhaglen gyfrifiadurol i gysylltu'r elfennau gyda'i gilydd.
Bydd cyfuniad o luniau eang-ongl cyd-destunol sydd yn darlunio sawl heneb, a chyfres o luniau o'r ffotograffydd yn symud rhwng yr henebion yn gallu cael eu cyd-ddefnyddio.
Gyda henebion gyda sawl elfen, mae'n dda i amrywio'r lluniau rhwng portread a thirwedd er mwyn cofnodi'r heneb a'r cefndir.
Ystyriwch amrywio manylion yr arolwg: tynnwch rhai lluniau o'r ardal ehangach ar gyfer y strwythur syml neu gofnodi topograffig cyffredinol, a mwy o luniau yn agosach i'r heneb i dal y manylion cymhleth.

## Lleoedd cyfyng

Gall cyfuno lluniau o onglau ar osgo i'r arwyneb targed gyda lluniau yn berpendicwlar a'r arwyneb targed (h.y. yn edrych yn syth ar yr arwyneb gwastad).

## Gwrthgloddiau ac ardaloedd gyda glaswellt

Ystyriwch ddefnyddio targedau unigryw.
Cynhwyswch nodweddion unigryw o'r dirwedd, fel pyrth caeau a therfynau caécaeau, i leoli gwrthgloddiau.
Tynnwch luniau o safle uchel (yn ofalus) os mae'n bosib!

## Gwerth ymchwil

Gall un arolwg cynhyrchu data archeolegol gwerthfawr ar safle pwysig neu sydd heb ei chofnodi.
Gall set cymharol fach o luniau gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i ddealltwriaeth archeolegol.



www.facebook.com
/HeritageTogether

@heritage2gether

Arts & Humanities Research Council

Manchester Metropolitan University

Prifysgol Bangor University

Prifysgol Aberystwyth University